



Rhif: WG46923

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi

Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mehefin 2023
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 20 Gorffennaf 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ganllawiau newydd Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer unrhyw un sydd â rôl neu fuddiant yn ymwneud â phresenoldeb mewn ysgolion, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni/gofalwyr a phartïon eraill sydd â buddiant.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **20 Gorffennaf 2023** fan hwyraf.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae darn o waith ar wahân ar y gweill i ddiweddarau'r canllawiau gwaharddiadau. Bydd ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal maes o law ar y canllawiau hyn.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is Adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ccd.sas@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: <https://www.gov.wales/belonging-engaging-and-participating>



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg cyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Crynodeb

Pam rydym yn cynnig y canllawiau hyn?

Mae'r [adolygiad](#) a gynhaliwyd yn 2022 o batrymau presenoldeb, a'r [adroddiad](#) dilynol gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ategu mor bwysig yw ystyried presenoldeb ochr yn ochr â dylanwadau a ffactorau eraill, megis statws economaidd-gymdeithasol, llesiant, a materion systemig ehangach. Deall y ffactorau y tu ôl i absenoldeb dysgwyr a helpu i sicrhau mwy o gysondeb wrth ymdrin â phresenoldeb mewn ysgolion a pholisïau eraill cysylltiedig yw'r prif resymau dros y canllawiau hyn.

Ni ellir ystyried absenoldeb ar ei ben ei hun. Mae'r nifer mawr o resymau dros absenoldeb sy'n gydberthnasol ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd a natur amrywiol profiad dysgwyr yn yr ysgol ac yn y cartref yn golygu bod angen strategaethau ysgol gyfan a threfniadau gweithio amlasiantaethol cadarn, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi pob dysgwr, ni waeth beth fo'i statws economaidd-gymdeithasol, ei anghenion llesiant ac iechyd meddwl, ei broblemau cymdeithasol neu ymddygiadol neu ei anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae dealltwriaeth gynyddol bod angen i ysgolion hefyd helpu dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o berthyn, cysylltedd ac ymgysylltu â'r ysgol, a meithrin eu gwydnwch a'u gallu i ymdopi â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Beth yw diben yr ymgynghoriad?

Datblygwyd y canllawiau i gefnogi ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol i gynyddu lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr. Maent yn amlinellu dulliau gweithredu at ddefnydd ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn helpu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr, ac at ddiben gwasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid eraill pan fydd problemau absenoldeb yn gwaethygu. Dylid mabwysiadu'r dulliau gweithredu, eu datblygu ac adeiladu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant a rhieni/gofalwyr.

Y sefyllfa bresennol

Mae pob un ohonom yn gyfarwydd â'r heriau sydd wedi dod yn sgil y pandemig i'n cymuned addysg. Un ohonynt yw cynnydd yn lefelau absenoldeb dysgwyr ar draws pob grŵp blwyddyn a phob categori nodweddion. Gwyddom fod ystod o resymau neu achosion gwaelodol dros absenoldeb dysgwyr, a bod hyn wedi gwaethygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r cysylltiad rhwng lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol yn glir – mae colli cyfnodau cyson o amser ysgol yn risg wirioneddol i gyrhaeddiad plentyn, a gall hefyd arwain at ymddieithrio'n fwy oddi wrth eu haddysg.

Un o'r prif ganfyddiadau i ddod i'r amlwg yw effaith costau byw ar lefelau presenoldeb. Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn flaenoriaeth bwysig, a gwyddom fod lefelau presenoldeb yn yr ysgol yn allweddol i ganlyniadau addysgol da, yn enwedig i blant a phobl ifanc o deuluoedd incwm is. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni sicrhau'r ddarpariaeth iawn yn ein hysgolion, ein bod yn cyrraedd allan at blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a'n bod yn cefnogi ac yn meithrin uchelgais.

Gwyddom fod ymgysylltu'n fwy â theuluoedd wedi'i brofi fel rhywbeth sy'n cael effaith gadarnhaol wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a gwella lefelau presenoldeb. Dyna pam mae ein dull gweithredu o ran ysgolion bro yn hanfodol wrth ymateb i'r her hon. Mae gan Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, yn benodol, rôl allweddol wrth greu partneriaethau cadarnhaol a chynnig cymorth sydd wedi'i deilwra. Gall ysgolion sy'n adnabod eu teuluoedd yn dda sicrhau bod mesurau yn cael eu sefydlu a fydd yn helpu'r plant i gynnal lefelau presenoldeb ac ymgysylltu da.

Dylai pob person ifanc gael y cyfle i gyflawni ei botensial, beth bynnag ei gefndir. Mae mynd i'r afael ag absenoldeb dysgwyr yn allweddol i hyn.

Yr ymgynghoriad ar y canllawiau

Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar eglurder a defnyddioldeb y canllawiau i fod yn ddefnyddiol i arweinyddion, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol. Mae hefyd yn amlinellu rôl bwysig ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned wrth wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb ymhlith dysgwyr.

Mae'r canllawiau wedi'u rhannu fel a ganlyn:

1. Rhagair
2. Egwyddorion a dulliau gweithredu
3. Strategaethau presenoldeb i'r ysgol gyfan, polisiau ac arferion i bawb
4. Cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb
5. Nodi'n gynnar a chymorth i ddysgwyr
6. Ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol
7. Rheoli absenoldeb yn ffurfiol

Atodiad 1: Enghraifft o Ffurflen CCB, cofnod adolygu a therfynu

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn galluogi ysgolion a chyrff llywodraethu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

Cwestiwn 2 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?

Cwestiwn 3 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?

Cwestiwn 4 – A oes ymdriniaeth ddigonol o'r ffactorau sy'n cyfrannu a'r nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb?

Cwestiwn 5 – A yw dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig wedi'u cynnwys?

Cwestiwn 6 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn i rieni a gofalwyr ddeall eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn?

Cwestiwn 7 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

Cwestiwn 8 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

Cwestiwn 9 – Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' ac mae 5 yn golygu 'defnyddiol iawn') pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eich barn chi? A oes unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld?

Cwestiwn 10 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â'r canlynol

- i. esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?
- ii. nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a all effeithio ar bresenoldeb?
- iii. cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da?
- iv. cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb?
- v. ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol?
- vi. rheoli absenoldeb yn ffurfiol?

Cwestiwn 11 – At ddibenion ystadegol, mae absenoldeb cyson wedi ei ddiffinio yng Nghymru fel absenoldeb am dros 20% o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno ai peidio â'r cynnig hwn a pham?

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i ymateb i'r cwestiynau uchod.